OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 3390 (Cy.310)

CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2006

Wedi'i wneud	- -	*12 Rhagfyr 2006*
Yn dod i rym	- -	*30 Mehefin 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 59, 61(1), 62 a 69 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**) ac sydd bellach yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2006.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 30 Mehefin 2007.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995

2. Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995(**3**) wedi'i ddiwygio yn unol ag erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn.

Diwygiadau sy'n ymwneud â datganiadau mynediad

3.—(1) Ar ôl erthygl 4C (datganiadau dylunio a mynediad) rhodder—

(**1**) 1990 p.8. Amnewidiwyd adran 62 gan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p.5), adran 42(1). *Gweler* adran 336(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i gael y diffiniad o "prescribed".

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau perthnasol yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddedf 1990 o ran Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. *Gweler* y cofnod ar gyfer Deddf 1990 yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw, fel yr amrywiwyd ef gan erthygl 4 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000 (O.S. 2000/253) (Cy.5) ac Atodlen 3 iddo ac fel y diwygiwyd ef gan adran 118(3) o Ddeddf 2004.

(**3**) O.S. 1995/419. Gwnaethpwyd diwygiadau perthnasol gan O.S. 1997/2971 a 2004/3156 (Cy.273).